**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00AM, DYDD IAU, 5 MEDI, 2013**
**10.00AM, THURSDAY, 5 SEPTEMBER, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL DWYRYD**
**CANOLFAN GYSWLLT / CONTACT CENTRE**
**UNED 2 / UNIT 2**
**PARC BUSNES ERYRI / ERYRI BUSINESS CENTRE**
**MINFFORDD**
**PENRHYNDEUDRAETH**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 29/08/13)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors
Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gareth Thomas

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors
Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors
Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Eraill a wahoddir / Others invited
Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet Gofal Cwsmer / Cabinet Member Customer Care (eitem / Item 5)
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau / Cabinet Member Resources (eitem / item 6)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**5. STRATEGAETH YMGYSYLLTU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer (copi ynghlwm).

*10.10am – 11.10am*

**6. STRATEGAETH ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Pererdur Jenkins**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

*11.10am – 12.10pm*

**7. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013 - 2014**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi ynghlwm).

*12.10pm – 12.20pm*

**8. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**

Cyflwyno'r briff diwygiedig (copi ynghlwm).

*12.20pm – 12.30pm*

# AGENDA

**1. APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT BUSINESS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 23 May, 2013 be signed as a true record (copy attached).

*Please note that the times noted below are estimates only*

**5. ENGAGEMENT STRATEGY**
**Cabinet Member: Councillor Ioan Thomas**

To consider the report of the Cabinet Member Customer Care (copy attached).

*10.10am – 11.10am*

**6. SAVINGS STRATEGY**
**Cabinet Member: Councillor Pererdur Jenkins**

To consider the report of the Cabinet Member Resources (copy attached).

*11.10am – 12.10pm*

**7. FORWARD SCRUTINY WORK PROGRAMME 2013 - 2014**

To submit the latest version of the work programme (copy attached).

*12.10pm – 12.20pm*

**8. SUSTAINABLE PROCUREMENT SCRUTINY INVESTIGATION**

To submit the revised brief (copy attached).

*12.20pm – 12.30pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 23.05.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Brian Jones (Rheolwr Cynllunio Argyfwng) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Gweno Glyn a Charles Wyn Jones.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Simon Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Jones yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2013 fel rhai cywir.

**4. CYNLLUNIO ARGYFWNG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Cyflwynwyd -

(a) Adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn egluro cyfrifoldebau'r Cyngor o safbwynt Cynllunio Argyfwng ac yn adrodd ar weithgaredd y ddwy flynedd ddiwethaf.
(b) Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru dyddiedig 6 Rhagfyr, 2012.
(c) Tabl Risgiau Cynllunio Argyfwng Gofal Cwsmer.

Rhoddodd y Pennaeth Gofal Cwsmer amlinelliad o gynnwys y dogfennau uchod gan nodi y dylid cywiro'r geiriau mewn cromfachau a llythrennau italig ym mharagraff 2.2.1 o adroddiad yr Aelod Cabinet i ddarllen '*Prosiect Ymateb i Fygythiad Newid Hinsawdd*'. Nododd hefyd fod y tabl Risgiau Cynllunio Argyfwng Gofal Cwsmer ar ffurf drafft ar hyn o bryd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Nodwyd y dylai aelodau lleol dderbyn rhestr o'r canolfannau gorffwys o fewn eu wardiau.
- Awgrymwyd y dylid adnabod canolfannau cymuned fel canolfannau gorffwys hefyd oherwydd y gall natur argyfwng olygu na fyddai'r ysgolion uwchradd / canolfannau hamdden ar gael, neu gallent fod allan o gyrraedd pobl.
- Tra'n cydnabod mai rôl y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng yw ymateb i argyfyngau, pwysleisiwyd yr angen i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd fod yn fwy rhagweithiol yn y maes hwn, yn benodol felly yng nghyswllt atal llifogydd. Er enghraifft, holwyd a ellid bod wedi gwneud mwy i atal y llifogydd yn Llanberis fis Tachwedd diwethaf ac awgrymwyd efallai bod yna wersi i'w dysgu o'r hyn ddigwyddodd. Mynegwyd pryder hefyd bod y Bwrdd Dŵr yn mynnu cadw lefel dŵr Llyn Celyn yn uchel drwy gydol y flwyddyn gan fod hynny'n cynyddu'r risg o lifogydd yn ardal Y Bala yn ystod cyfnodau o law trwm. Awgrymwyd, fel dilyniant i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn, bod atal llifogydd yn faes i'w graffu ar wahân gan un o'r pwyllgorau craffu a chytunodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu i sgopio'r gwaith ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y pwyllgor hwn ar 13 Mehefin.
- Nodwyd na chyfeirir yn y dogfennau at y pwysau ar siopau a modurdai o ganlyniad i brynu gwyllt yn ystod argyfwng, neu pan fo bygythiad o argyfwng. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Gofal Cwsmer fod Cynllun Tanwydd Cenedlaethol yn bodoli er mwyn ceisio blaenoriaethu cyflenwadau.
- Holwyd a fyddai'n bosib' defnyddio arbenigedd y diwydiant niwclear yn y maes cynllunio argyfwng i hyfforddi staff y Cyngor.
- Cyfeiriwyd at ymarferion y Llynges ym Mae Ceredigion ar Ŵyl Banc Calan Mai a gofynnwyd i'r swyddogion gysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatgan na ddylai'r math yma o ymarferion ddigwydd ar adegau fel Gŵyl y Banc pan mae'r ardaloedd twristiaeth yng Ngwynedd yn llawn ymwelwyr ac y dylai'r Cyngor dderbyn rhybudd ymlaen llaw o unrhyw ymarferion yn y dyfodol. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn ag effaith y digwyddiad ar fywyd gwyllt yr ardal.
- Nodwyd, er bod y Cyngor yn graeanu'r lonydd cefn, nad oedd hynny'n golygu bod y lonydd hynny'n agored i wasanaethau megis bysiau, injan dân neu ambiwlans, gan fod pobl sy'n byw ar dir uwch, megis rhannau o Ddyffryn Ogwen, yn symud eu ceir i lawr yn agosach at y briffordd pan fo darogan eira a thrwy hynny'n creu rhwystr i gerbydau mawr. 'Roedd yn bwysig bod yr Adran Priffyrdd yn ymwybodol o sefyllfaoedd fel hyn.
- Nodwyd bod rhew ac eira'r gaeaf diwethaf wedi amlygu nifer o fannau ychwanegol lle byddai'n fuddiol cael bocsys halen, ond nad oedd yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn fodlon cynyddu'r nifer.
- Y dylai'r Grŵp Ymateb i Argyfwng gadw mewn cof bod modd gwneud defnydd effeithiol o'r aelod lleol mewn argyfwng, ac o'r wybodaeth leol sydd ganddo ef / hi, gan ddefnyddio technoleg megis '*Facetime'* i sicrhau deialog parhaus rhwng y Pencadlys a'r aelod lleol ar lawr gwlad.
- Awgrymwyd, yn hytrach nag edrych ar ddatblygu cofrestr risg leol i Wynedd gyfan, y dylid cydweithio, naill ai gyda'r cynghorau cymuned, neu'r pwyllgorau ardal o fewn Gwynedd, i ddatblygu cofrestrau risg mwy lleol, gan fod gwahanol rannau o'r sir yn wynebu mathau gwahanol o risg.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â chyfrifoldebau perchnogion safleoedd carafanau preifat yn ardal Dyffryn a Thalybont, cytunodd y Pennaeth Gofal Cwsmer i edrych ar ffiniau'r Cynllun Llifogydd Lleol ar gyfer Abermaw, ac adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r aelod.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu grynhoi prif sylwadau'r cyfarfod hwn a'u hanfon at yr aelodau cyn y Cyfarfod Paratoi nesaf.**

## 5. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY

Cyflwynwyd – briff drafft ar gyfer yr ymchwiliad uchod.

Diolchwyd i Gadeirydd ac aelodau'r ymchwiliad am eu gwaith da, ond mynegwyd peth pryder ynglŷn â'r amserlen.

**PENDERFYNWYD derbyn y briff drafft ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy, ond gan dderbyn y gall fod yn ofynnol ymestyn cyfnod yr ymchwiliad.**

## 6. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith. Nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Awgrymwyd y dylid nodi enwau'r gwahanol bwyllgorau mewn print trwm.
- Mynegwyd siomedigaeth na dderbyniwyd unrhyw ymateb yn sgil cyflwyno argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Meddylfryd Systemau i'r Aelod Cabinet. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu y byddai'r Adroddiad Blynyddol a gyflwynid i gyfarfod blynyddol y pwyllgor ar 13 Mehefin yn nodi argymhellion yr ymchwiliad ac ymateb yr Aelod Cabinet iddynt.
- Nodwyd y gwelid tebygrwydd rhwng rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a'r Blaen Raglen Craffu a holwyd a oedd yna ddyblygu gwaith yma. Cytunwyd i nodi hyn er ystyriaeth yn y cyfarfod blynyddol.
- Gan gyfeirio at eitem 10 ar y rhaglen waith, mynegwyd pryder ynglŷn â morâl y gweithwyr a chytunwyd bod hyn yn fater i'w godi yn y cyfarfod blynyddol.

Pwysleisiodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod croeso i unrhyw aelod ychwanegu eitemau at y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am hanner dydd.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5 MEDI 2013 |
| **TEITL** | STRATEGAETH YMGYSYLLTU |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Ioan Thomas |
| | |

**1 Cefndir**

1.1 Wrth ystyried yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Cynllun Strategol, ac wrth ystyried trefniadau gweithredu'r Cyngor, daeth yn amlwg fod angen rhoi sylw i drefniadau ymgysylltu.

1.2 Os am wella, rhaid cael strategaeth i wneud hynny mewn ffordd gynlluniedig ac mae yna waith yn mynd ymlaen i greu strategaeth o'r fath.

1.3 Mae yna ddiffyg dealltwriaeth glir o fewn y Cyngor ynglŷn â beth y mae "ymgysylltu" yn ei olygu a bwriad y strategaeth fydd ceisio amlygu hynny a mapio allan dull o wella ymgysylltu o fewn y Cyngor.

1.4 Nodir nad mater o bwyso botwm a chael ateb sydyn fydd hyn, ond yn hytrach, cyflawni cyfres o newidiadau fydd, gyda'i gilydd, yn newid y diwylliant o ymgysylltu o fewn y Cyngor. Fel pob newid diwylliant nid yw hyn am ddigwydd dros nos.

1.5 Wrth baratoi'r adroddiad yma gofynnwyd i mi gyfarch nifer o faterion ac 'rwyf wedi strwythuro'r adroddiad ar sail y materion hynny.

1.6 'Rwyf hefyd yn amgáu fel atodiad i'r adroddiad hwn, gopi o'r Strategaeth Ymgysylltu Drafft fel ag y saif ar hyn o bryd.

**2 Beth yw sail ein dadansoddiad bod trefniadau presennol yn ddiffygiol ?**

2.1 Mae'r Strategaeth yn nodi yn rhan 3 sut y dylai ymgysylltu ddigwydd a beth sydd yn awgrymu fod yna le i wella yma yng Nghyngor Gwynedd.

2.2 Fe welir o'r rhan hwnnw fod yna rhywfaint o dystiolaeth o'r Arolwg Mori a'r arolwg a wnaed ymysg rhanddeiliaid i edrych ar drefniadau gofal cwsmer nad yw pethau yn gyfan gwbl fel y dylent fod; ynghyd a nifer o enghreifftiau o brosiectau trawsnewid lle gellir gweld ar brydiau fod ymgysylltu wedi mynd ar gyfeiliorn.

2.3 Mae rhan yma'r strategaeth hefyd yn rhoi cynnig ar ddadansoddi pam y mae hynny wedi digwydd.

**3 Beth yw'r uchelgais ar gyfer trefniadau ymgysylltu – sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant ?**

3.1 Mae rhan 4 y strategaeth yn manylu ar yr hyn y byddwn yn ceisio ei wneud yn y tymor canolig.

3.2 Yn y pen draw, yr uchelgais yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd a'r Cyngor yn dod i ddeall ei gilydd yn well, ac fel y nodir yn rhan 4 y strategaeth, amcan y strategaeth yw sicrhau fod yna drefn strwythuredig o fewn y Cyngor i sicrhau cyfleoedd i hynny ddigwydd.

3.3 Mae'r Strategaeth yn nodi mai mater o newid diwylliant ymysg holl staff ac aelodau'r Cyngor yw hyn ac o reidrwydd bydd yn daith hir ac anodd.

3.4 Mae rhan 6 o'r strategaeth yn manylu sut y byddwn yn mesur llwyddiant ac yn nodi tra ei fod yn anodd mesur rhywbeth mor haniaethol ag ymgysylltu, byddwn yn defnyddio'r mesurau canlynol gan ystyried a yw'r darlun sy'n cael ei ddangos drwy eu cymryd i gyd gyda'i gilydd yn dangos gwelliant neu beidio –

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau;

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n cytuno ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol;

- Faint o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwy dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y sir;

- Faint o'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol;

- Beth yw ymdeimlad aelodau etholedig yn eu cyfanrwydd o'r trefniadau ymgysylltu ar ddiwedd y cyfnod.

**4 A yw'r uchelgais ar gyfer gwella ymgysylltu bellach yn realistig yn wyneb yr her ariannol newydd y mae'r Cyngor yn ei wynebu ?**

4.1 Mae'n wir nodi yn wyneb y cyfyngiadau ariannol fydd arnom yn y dyfodol, y bydd yn rhaid i ni ystyried yn ddwys beth yn union o fewn y Cynllun Strategol yr ydym yn gallu parhau i'w gyflawni.

4.2 Wrth gwrs, ar un ystyr, mewn amgylchiadau o'r fath gellid dadlau fod ymgysylltu effeithiol yn fwy pwysig fyth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn gyda hynny o adnoddau fydd gennym gan adlewyrchu blaenoriaethau ein pobl.

4.3 Nid yw'r Cabinet eto wedi ystyried pa gynlluniau o fewn y Cynllun Strategol fydd yn rhaid eu hail flaenoriaethu ond byddaf yn awgrymu

y dylid cadw'r project ymgysylltu ond gan geisio ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd.

4.4 Ar ôl trafod gyda swyddogion rhagwelaf y bydd modd gwneud hynny gydag elfen sylweddol o'r strategaeth ond os bydd angen adnodd pellach ar gyfer unrhyw agwedd gellir ystyried hynny yng ngoleuni asesiad o'r budd fyddai'n deillio o unrhyw gynnig.

**5 Beth sy'n cael ei weld fel rôl aelodau rheng flaen/ mainc gefn yn y trefniadau ymgysylltu newydd ?**

5.1 Yn amlwg, mae aelodau yn "ymgysylltwyr" allweddol o ran y Cyngor – nid o reidrwydd oherwydd eu bod yn rhan o brosesau prosiect ffurfiol sydd gan y Cyngor - ond oherwydd eu bod mewn cyswllt cyson gyda thrawsdoriad o bobl Gwynedd (sef eu hetholwyr).

5.2 Fe welir o Atodiad 1 y Strategaeth fod yna un ffrwd gwaith (Ffrwd Gwaith rhif 8) sydd yn ymwneud ag anghenion aelodau yn y broses ymgysylltu.

5.3 Mae'r rhaglen waith yn nodi mai'r ddwy elfen gyntaf i'w hystyried o fewn y maes yma yw diffinio beth yn union yw rôl aelodau yn y broses ymgysylltu a chynnal deialog gydag aelodau ar yr hyn sydd ei angen arnynt i fod yn rhan allweddol o ymgysylltu.

5.4 Unwaith y bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau (rhagwelir yn y rhaglen waith y bydd hyn yn digwydd erbyn Mai/ Mehefin y flwyddyn nesaf), gallwn roddi unrhyw gynigion sy'n codi o hynny ar waith.

5.5 Mae gan aelodau rôl hefyd wrth gwrs wrth ystyried llwyddiant yr holl strategaeth gan fod eu canfyddiadau nhw yn rhan o'r broses mesur (gweler pwynt bwled olaf rhan 3 uchod)

**6 Pa fath o gymorth ac arweiniad fydd ar gael i gynghorwyr, rheolwyr a staff y Cyngor ?**

6.1 O fewn y strategaeth fe welir fod elfen eang ohono yn ymwneud a sicrhau fod gan reolwyr a staff sy'n ymgysylltu y gefnogaeth a'r sgiliau i fedru gwneud hynny yn effeithiol.

6.2 Mae nifer o'r ffrydiau gwaith a'r drefn o esblygu camau pellach i gyd yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn adnabod y pethau sydd eu hangen ar y rhai sydd yn ymgysylltu a cheisio sefydlu beth sydd ei angen er mwyn sicrhau fod hynny ar gael.

6.3 Un o'r adnoddau hanfodol yn hyn o beth yw'r Llawlyfr Ymgysylltu y sonnir amdano yn rhan 5 y strategaeth, fydd ar gael ar safle we fewnol y Cyngor. Bydd y llawlyfr yn helpu unigolion i ystyried beth yw'r

ymgysylltu sydd angen ei gyflawni er mwyn sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol gan y rhai sydd am gomisiynu neu redeg prosiect.

## 7 Sut fyddwn ni'n asesu llwyddiant y trefniadau newydd ?

7.1 Byddwn yn mesur llwyddiant drwy'r hyn y bydd y pump mesur a nodir yn rhan 3.4 uchod yn ei ddweud wrthym.

# Strategaeth Ymgysylltu Cyngor Gwynedd 2013 -2017



**Drafft fersiwn 9 [ar ol bod yn y Tim Rheoli].**

## 1. Pam ydan ni angen strategaeth ymgysylltu ?

**Mae ymgysylltu yn derm eang sydd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r ddeialog rhwng y Cyngor â phobl Gwynedd sy'n digwydd wrth i ni fynd o gwmpas ein gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer y bobl hynny.**

Mae'n gallu digwydd mewn nifer fawr o ffyrdd ac ar bron i bob achlysur y mae yna gyffyrddiad rhwng y Cyngor a phobl Gwynedd boed drwy ddulliau ffurfiol neu anffurfiol.

Mae'n cael ei gydnabod fod Ymgysylltu effeithiol yn arf hanfodol mewn trefniadau Llywodraethu da gan ei fod yn caniatau i ni ddod i ddeall ein gilydd yn well.

Yn draddodiadol gwelwyd ymgysylltu fel ffordd o ddod i ddeall dyheadau a blaenoriaethau ein bobl er mwyn gallu ceisio defnyddio'r wybodaeth hynny i lywio yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Mae ymgysylltu yn digwydd yn barod wrth gwrs ac mewn pocedi ar draws y Cyngor mae'n cael ei wneud yn dda ond mae yna elfen o dystiolaeth feintiol nad yw popeth fel y dylai fod [gweler rhan 3 isod].

Yn yr hinsawdd ariannol sydd o'n blaenau fodd bynnag mae ymgysylltu am ddod yn fwy a mwy pwysig gan fod y berthynas y bydd yn rhaid i unrhyw gyngor ei gael gyda'r bobl y mae'n ei wasanaethau newid.

Ni fydd yn bosibl i ni barhau i weithredu yn y ffordd y mae pawb wedi arfer a hi a bydd angen sicrhau nid yn unig ein bod ni yn deall dyheadau ein bobl yn well ond hefyd eu bod hwy yn deall y realiti ariannol newydd a'r hyn y mae hynny yn ei olygu.

**Os am sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer bobl Gwynedd i'r dyfodol felly ni allwn ond a gwneud hynny drwy weithio gyda'n gilydd a drwy ddod i ddeall ein gilydd yn well.**

**Mae angen y strategaeth yma felly er mwyn creu perthynas newydd ar gyfer byd newydd.**

## 2. Beth fydd pwrpas y strategaeth ymgysylltu ?


Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd am y cyfnod 2013-2017 yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod gan ddisgrifio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Mae gan y Cyngor weledigaeth o fod yn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac er mwyn sicrhau fod hynny yn digwydd, mae'r Cyngor am hybu diwylliant drwy'r Cyngor gyfan sy'n adlewyrchu'r weledigaeth honno. Er mwyn sicrhau fod hynny yn digwydd 'rydym wedi adnabod nifer o ffactorau sydd angen bod yn eu lle os am wreiddio "Ffordd Gwynedd" yn holl weithgareddau'r Cyngor.

Dangosir rhain yn y darlun isod.

**Error! Not a valid link.**

Fe welir mai un elfen hanfodol o "Fordd Gwynedd" yw sicrhau fod gennym drefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac er mwyn medru blaenoriaethu ein hadnoddau yn briodol.





DRAFT

Bydd trefniadau Ymgysylltu addas hefyd yn arf pwerus wrth geisio gwyro galw am wasanaethau a chyflawni cymunedau cryf a hunangynhaliol.

Os am gyflawni'r gweledigaethau a nodir ar gyfer y gwahanol feysydd o fewn y Cynllun Strategol nid yw'r Cyngor am fedru eu cyflawni heb i bobl Gwynedd ddod gyda ni a chwarae eu rhan nhw yn y newidiadau allweddol y bydd yn rhaid i ni eu gweld yn digwydd.

Mae'r angen ar gyfer sicrhau ymgysylltu effeithiol yn ehangach na dim ond y cynlluniau newid hynny a nodir yn y Cynllun Strategol fodd bynnag. Mae o hefyd y hanfodol yn ein gwaith dydd i ddydd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir wrth gyflwyno gwasanaethau i drigolion dros yr amrediad o wasanaethau a gyflwynir.

Mae'r darlun canlynol yn dangos rôl ymgysylltu wrth geisio effeithio ar brofiadau ein pobl.





O wella ymgysylltu felly fe ddylem sicrhau fod y gymuned yn cael mwy o ddylanwad ar waith y Cyngor ac i'r Cyngor esbonio'n well yr hyn y mae yn ei wneud wrth lunio ei weithgareddau, a thrwy hynny sicrhau ein bod **yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd** cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. O wneud hynny fe ddylem adeiladu gwell ymddiriedaeth rhwng y Cyngor a bobl Gwynedd.

Gall gael ei ddefnyddio hefyd i adeiladu pontydd rhwng y Cyngor a'i bobl er mwyn iddynt hwy ddeall yn well y dewisiadau sy'n rhaid eu gwneud ac i helpu i newid ymddygiadau a disgwyliadau gan ein bobl a'r angen iddynt hwy hefyd fod yn chwarae rhan mewn unrhyw newid.

Yn benodol, bydd Ymgysylltu effeithiol yn hanfodol os ydym am fedru gobeithio dwyn perswâd ar bobl Gwynedd i newid eu disgwyliadau o ran yr hyn y bydd modd i'r Cyngor ei ddarparu yn y dyfodol. Os am reoli galw am wasanaethau yn effeithiol fe fydd hyn yn gofyn am ymdrech sylweddol os am fynd a phobl Gwynedd gyda ni.

## 3 Sut mae Ymgysylltu yn digwydd ar hyn o bryd ?

Mae ymgysylltu yn medru digwydd ar wahanol lefelau gyda chymunedau gwahanol a gwahanol rannau o gymunedau fel y nodir isod.




Ar ei lefel fwyaf cyffredin byddwn eisiau ymgysylltu gyda holl drigolion Gwynedd.

Oddi tan hynny wedyn, yn aml iawn byddem yn adnabod cymunedau penodol boed yn

- Gymunedau Lleoliad – sef pobl sy'n uniaethu eu hunain gydag ardal benodol – boed yn ardal eang; yn ardal cyngor cymuned neu dref; yn bentref penodol neu'n stad o dai hyd yn oed.

- Cymuned Diddordeb - sef pobl sy'n rhannu profiad neu ddiddordeb cyffredin - er enghraifft pobl sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol neu yn y celfyddydau.

  Gall hyn hefyd gynnwys cyrff sy'n weithredol mewn gwahanol feysydd o fewn tiriogaeth Gwynedd boed yn sefydliadau cyhoeddus eraill, busnesau y trydydd sector a'r sector wirfoddol.

- Cymuned Nodwedd - sef pobl sy'n rhannu nodwedd benodol - fel grwpiau ethnig neu bobl gydag anableddau neu o oed penodol fel yr ifanc, yr henoed a.y.b.

Yn barhaus byddwn hefyd eisiau ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sefydlu beth sydd yn bwysig iddynt a sut y gallwn wella'r hyn a ddarperir. **Mae hyn oll yn galu digwydd ar lefel ffurfiol ac anffurfiol**

Fe welir o'r darlun uchod sut y mae ymgysylltu yn cymryd ei le yn ein trefniadau cyflawni ar gyfer trigolion Gwynedd gan sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud a'i fod yn cwmpasu'r canlynol -

a. Deialog dydd i ddydd wrth ddarparu gwasanaethau. Profiad personol yr unigolyn wrth dderbyn gwasanaeth gan y Cyngor yw'r ffactor sy'n dylanwadu'n sylweddol iawn ar agweddau pobl tuag at y Cyngor ac er mwyn sicrhau fod y profiad hwnnw yn un positif mae'n rhaid cael deialog gyda'n defnyddwyr.

b. Deialog fel rhan o'r broses o gyflwyno newid. Oni bai ein bod yn cynnal deialog dwy ffordd gyda'r cymunedau perthnasol sut allwn ni sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn a sicrhau eu bod yn deall y rhesymau y tu ôl i'n penderfyniadau ?

c. cysylltiadau cyhoeddus a'r defnydd a wneir o ystod eang o gyfryngau electroneg a thraddodiadol. Mae'r darlun a bortreadir ar y cyfryngau yn dylanwadu ar argraffiadau pobl ac mae'r cyfryngau yn ddulliau pwysig i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth ac egluro safbwyntiau.

d. trefniadau penodol gan y Cyngor er mwyn cryfhau'r ddeialog a gawn gyda charfanau penodol e.e. cyfleoedd ymgysylltu drwy Banel Trigolion; Fforymau Ardal a.y.b. a thechnegau perthnasol.

DRAFT

Mae ymgysylltu yn digwydd yn barod wrth gwrs ac mewn pocedi ar draws y Cyngor mae'n cael ei wneud yn dda.

Fodd bynnag, mae yna elfen o dystiolaeth feintiol nad yw popeth fel y dylai fod.

Mewn Arolwg MORI a gyflawnwyd gan y Cyngor yn Nhachwedd 2009, 43% o drigolion Gwynedd oedd yn ystyried o gymryd popeth i ystyriaeth eu bod yn fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau (o'i gymharu gyda 45% o fewn ein cymdogion ystadegol).

Yn yr un arolwg, 'roedd 63% yn teimlo nad oedd yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol (o'i gymharu gyda 73% yn ein cymdogion ystadegol) ac fe nododd 29% y byddent yn hoffi cael mwy o lais yn y penderfyniadau oedd yn effeithio ar eu hardal leol gyda 59% pellach yn nodi y byddent yn dymuno hynny yn dibynnu ar y mater dan sylw.

Tydi'r darlun ddim yn hollol eglur fodd bynnag. Yn yr arolwg mwyaf diweddar a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar draws Cymru yn 2012/13 - 54% o drigolion Gwynedd oedd yn nodi nad oedd yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn effeithio eu hardal leol – sef yr wythfed orau yng Nghymru.

Yn yr arolwg a wnaed ymysg rhanddeiliaid o ran ystyried beth yw gwendidau ein trefniadau gofal cwsmer presennol, nododd nifer mai un o'r rhesymau pam yr ystyrir nad ydym yn darparu gofal cwsmer gwell yw nad ydym yn treulio digon o amser yn sefydlu be sy'n bwysig i'r dinesydd.

Mae profiad ymarferol hefyd yn dangos fod ansawdd ymgysylltu yn amrywio ac mae yna dystiolaeth o nifer o brosiectau trawsnewid fod yna nifer o achlysuron lle nad ydym wedi ei gael yn iawn.

Dengys dadansoddiad o'r rhesymau pam ein bod yn methu mai'r prif resymau am hyn yw –

- Yn aml, nid ydym yn dechrau ar y broses ymgysylltu ddigon buan yn y broses newid; a

- Tydan ni ddim bob tro yn caniatáu digon o amser i ymgysylltu'n iawn gan ruthro i geisio cyflawni'r newid gan feddwl mai rhywbeth "dymunol ychwanegol" yw ymgysylltu;

- Tydi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ddim bob tro gan arweinyddion projectau i fedru ei wneud yn effeithiol gan ddefnyddio'r dechneg anghywir neu gwestiynau amhriodol i'r sefyllfa

DRAFFT

- Tydan ni ddim bob tro yn glir ynglyn a beth yn union yr ydan ni yn ei wneud gan roddi'r argraff weithiau ein bod yn trafod sefyllfa lle mae unrhyw beth yn bosibl lle mewn gwirionedd efallai mai dau ddewis ymarferol sydd yna mewn gwirionedd;

- Weithiau, dan ni hyd yn oed yn anghofio am randdeiliaid pwysig.

Os am weld gwell canlyniadau felly mae angen talu sylw i'r gwendidau yma.

# 4 Beth fydd y strategaeth yn ei gyflawni ?

Gellir datgan felly mai amcan y strategaeth yw –

" sicrhau fod yna drefn strwythuredig o fewn y Cyngor i sicrhau cyfleoedd i bobl Gwynedd a'r Cyngor ddod i ddeall eu gilydd yn well."

Mater o newid diwylliant ymysg holl staff ac aelodau'r Cyngor yw hyn ac o reidrwydd bydd yn daith hir ac anodd.

Bydd y strategaeth felly yn

- Gosod egwyddorion craidd y dylid eu dilyn er mwyn gwella ymgysylltu o fewn y Cyngor sef ;
    - Ystyried ddigon buan pa ymgysylltu sydd eisoes wedi bod a pha ymgysylltu sydd angen digwydd;
    - Bod yn glir o'r cychwyn ynglyn a phwy ydi'r budd-ddeiliaid perthnasol;
    - Y dylid defnyddio'r dulliau mwyaf perthnasol yn ol y sefyllfa yr ydym yn ei wynebu;
    - Os yn ansicr y dylai'r sawl sy'n gyfrifol am y maes alw am gymorth o'r ffynhonell gymorth fydd ar gael ar eu cyfer;

- Cefnogi a darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu polisïau a dylunio gwasanaethau dydd i ddydd drwy geisio sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth o anghenion unigolion a chymunedau.

- Cynyddu a chryfhau cyfraniad cymunedau wrth ddatblygu a gweithredu newidiadau mawr Gynllun Strategol y Cyngor;

- Cefnogi cymunedau i weithredu gan arfogi cymunedau i adnabod eu anghenion a'u helpu i ddatblygu eu datrusiadau eu hunain;

DRAFT

- Gwella ansawdd ymarferion ymgysylltu.

- Gwella ymgysylltu gyda grwpiau anodd i'w cyrraedd i sicrhau eu bod hwy hefyd yn cael llais;

## 5 Sut fyddwn ni yn cyflawni hyn ?

Fel man cychwyn byddwn yn

- Darparu fframwaith ymgysylltu er mwyn sicrhau fod yna lawlyfr y gall rheolwyr gyfeirio ato er mwyn llywio eu gweithgareddau yn y maes yma;

- Codi ymwybyddiaeth o werth ymgysylltu a'r llawlyfr ymysg rheolwyr ac arweinyddion a rheolwyr project;

- Gwella sgiliau unigolion sydd yn gyfrifol yn ymarferol am ymgysylltu;

- Darparu adnodd ar gyfer cefnogi rheolwyr sydd angen cyngor ynglŷn â'r maes ymgysylltu ac i sicrhau ansawdd ar rai o'r prosiectau mwyaf allweddol;

- Sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn er mwyn asesu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu o ran sicrhau ein bod yn ymgysylltu gyda'r bobl iawn, ar y pynciau iawn ac ar yr adeg gywir gan adolygu'n rheolaidd y gwersi i'w dysgu a'r hyn sydd angen ei wneud ymhellach er mwyn gwella ein perfformiad yn y maes yma ;

- Arbrofi gyda chyfundrefnau newydd er mwyn gweld beth sydd yn gweithio a beth sydd ddim;

- Creu Fforwm ymgysylltu ar gyfer ymarferwyr er mwyn rhannu ymarfer da a chynnig cefnogaeth i'w gilydd;

Nodir yn Atodiad 1 raglen waith gychwynnol ar gyfer cyflawni'r hyn a nodir uchod.

Rhagwelir y bydd y rhaglen waith yn esblygu ymhellach wrth i ni ddysgu gwersi o'n profiadau dros y cyfnod i ddod.

## 6 Sut fyddwn ni'n gwybod os byddwn wedi llwyddo ?

DRAFT

Os mai bwriad ymgysylltu yw sicrhau ein bod yn deall ein gilydd yn well a thrwy hynny bod penderfyniadau'r Cyngor yn cymryd yr hyn sydd o bwys i bobl gwynedd i ystyriaeth, yr hyn y dylem fod yn ei fesur felly yw

- Ydi trigolion Gwynedd a ninnau yn deall ein gilydd yn well
- A ydym wedi sefydlu'r hyn sydd o bwys i holl drigolion gwynedd
- A yw ein penderfyniadau yn cael eu dylanwadu gan yr adborth hwnnw

Y broblem yw bod y materion yma yn anodd iawn i'w mesur, yn enwedig y ddau gyntaf ac anodd yw dychmygu sut y gellid eu mesur go iawn.

Yn y cyfamser, awgrymir y dylid mesur llwyddiant y strategaeth drwy fesur y canlynol -

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau;

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n cytuno ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol;

- Faint o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwy dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y sir;

- Faint o'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol;

- Beth yw ymdeimlad aelodau etholedig yn eu cyfanrwydd o'r trefniadau ymgysylltu ar ddiwedd y cyfnod.

O sefydlu'r darlun cyfansawdd a geir o'r 5 mesur uchod fe ddylem fedru asesu a yw ein hymgais i wella ymgysylltu yn llwyddo neu beidio.

## 7 Sut fyddwn ni'n cadw golwg ar weithrediad y strategaeth ?

Yr Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cwsmer ar Gabinet y Cyngor fydd yn gyfrifol am gyflawni amcanion y strategaeth yma a bydd yn sicrhau fod hynny yn digwydd drwy adroddiadau parhaus i'r Panel Cyflawni Trawsffurfio.

Dros gyfnod y strategaeth fe fydd yr union gamau y mae angen eu cyflawni yn esblygu wrth ddysgu o'r gweithgareddau sydd yn digwydd ac er mwyn sicrhau

DRAFT

fod yna sylw parhaus yn cael ei roddi i'r maes, bwriedir sefydlu Bwrdd Project Ymgysylltu fydd yn ei dro yn troi'n Fwrdd Rheoli Ymgysylltu .

Aelodaeth y Bwrdd fydd –

Aelod Cabinet Gofal Cwsmer
Aelod cabinet yn gyfrifol am gyfathrebu
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cwsmer
Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi

Bydd y Bwrdd Project/Llywodraethu yn –

- Cynorthwyo'r Aelod Cabinet i sicrhau fod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni;
- Cadw log o'r gweithgareddau ymgysylltu ac asesu ansawdd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny;
- Galw Arweinyddion Project/ penaethiaid fel bo'r angen er mwyn dysgu gwersi o ymgyrchoedd ymgysylltu;
- Ystyried unrhyw enghreifftiau o ymgysylltu da neu ddrwg ac ystyried sut y mae hynny yn dylanwadu ar yr hyn sydd angen ei wneud yn y maes yma;
- Argymell unrhyw newidiadau cyfeiriad sydd eu hangen i'r Bwrdd Cyflawni Trawsffurfio;
- Ystyried beth yw'r sefyllfa gyda gweithredu'r materion a nodir yn adran 4 uchod;
- Ystyried a yw'r mesurau yn dangos llwyddiant y strategaeth;
- Ystyried unrhyw negeseuon gan y fforwm Ymarferwyr;
- Pennu blaenoriaethau'r Panel Trigolion

DRAFT

DRAFT

Atodiad 1

## Rhaglen waith gychwynnol ar gyfer cyflawni amcanion y strategaeth

| | | 2013/14 | | | | | | | | | | 2014/15 | | | | | | | | | | | | 2015/16 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 |
| 1 | **Y Strategaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.1 | Cwblhau'r strategaeth | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.2 | Cyflwyno'r strategaeth i'r Tim Rheoli | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.3 | Cyflwyno'r Strategaeth i'r Panel | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.4 | Cyfarfod cyntaf y Bwrdd Llywodraethu (cysgodol) | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.5 | Cabinet yn mabwysiadu'r strategaeth | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.6 | Sefydlu gwaelodlin mesurau | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.7 | Cyflwyno i'r Grwp Rheoli | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.8 | Cyflwyno i'r Coleg Uwch Reolwyr | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | **Y Llawlyfr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.1 | Cwblhau'r Llawlyfr | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.2 | Cyflwyno i'r Grwp Rheoli | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.3 | Cyflwyno i'r Coleg Uwch Reolwyr & Arweinwyr Project | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.4 | Asesu budd y llawlyfr yng ngoleuni profiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | **Adnoddau ar gyfer Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.1 | Adnodd cymorth i rai sydd eisiau ymgysylltu ar gael ar y mewnrwyd | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.2 | Adolygu digonolrwydd y cymorth | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | |
| 4 | **Ymestyn defnydd cyfryngau modern** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.1 | Papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli ar y gwersi a ddysgwyd ac anghenion ar gyfer y dyfodol | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.2 | Cynigion i'r Tim Rheoli | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.3 | Cynigion i'r Cabinet | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

Projectau a gweithgareddau eraill yn esblygu yn dilyn y profiadau fydd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Llywodraethu Ymgysylltu

DRAFT

| | | | | | 2013/14 | | | | | | | | | | | 2014/15 | | | | | | | | | | | | 2015/16 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 |
| **5 Gwella Sgiliau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.1 Datblygu Rhaglen gwella Sgiliau | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.2 Arbrawf peilot | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.3 Cynnal y sesiynau | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.4 Gwerthuso effaith yr hyfforddiant | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **6 Sicrhau ansawdd prosiectau allweddol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.1 Adnabod y prosiectau allweddol | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.2 Cynnal asesiad ffurfiol o sefyllfa ymgysylltu y projectau allweddol | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.3 Cynnwys arweiniad ar ymgysylltu yn y llawlyfr projectau newydd | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.4 Cynnal hyfforddiant i swyddogion allweddol | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.5 Monitro effeithiolrwydd y rhaglenni ymgysylltu yn y projectau allweddol | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **7 Fforwm Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.1 Trefniadau, aelodaeth a strywthur wedi ei gytuno | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.2 Cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.3 Asesiad o effeithiorwydd y trefniadau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | |
| **8 Anghenion aelodau ar gyfer Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8.1 Diffinio beth yw rol aelodau yn y broses ymgysylltu | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8.2 Cynnal deialog gydag aelodau ar yr hyn sydd ei angen arnynt i fod yn rhan allweddol o ymsgysylltu | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **9 Ymgysylltu mewn digwyddiadau mawr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9.1 Asesu trefniadau presennol ac adnabod a oes problem | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9.2 Cytuno ar drefniadau diwygiedig os oes eu hangen | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5 MEDI 2013 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ARBEDION |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Peredur Jenkins |
| | |

**1 CEFNDIR**

1.1 Mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi ei ddymuniad i graffu'r hyn sy'n digwydd yn y maes ariannol ac yn benodol, effaith yr arbedion hyn ar bobl Gwynedd.

1.2 Dylwn ail adrodd yr hyn a ddywedais yn fy llythyr at holl aelodau'r Cyngor ym mis Gorffennaf sef na wyddom eto yn union beth fydd tynged ariannu cynghorau yng Nghymru ond y rhagolwg yw ei fod am olygu gostyngiad grant sylweddol uwch na'r hyn a welwyd hyd yma.

1.3 Yn sgil y dybiaeth honno mae yna waith yn mynd ymlaen i geisio sefydlu llwybr drwy'r dymestl sydd yn debygol o fod o'n blaenau fydd yn ceisio gwarchod pobl Gwynedd cymaint ag sy'n bosibl rhag effeithiau gwaethaf y cynni ariannol sydd am gael ei osod arnom.

1.4 Y ffordd orau o wneud hynny wrth gwrs yw cymryd amser i gynllunio'n ofalus ond fe allasai cyflymdra a dyfnder y gostyngiadau diweddaraf yma olygu nad yw'r dewis hwnnw yn agored i ni a byddwn yn wynebu gorfod gwneud pethau ar frys. 'Rwyf wrthi'n trafod gyda swyddogion ar hyn o bryd i weld a oes modd osgoi hynny.

1.5 Mae'r darlun diweddaraf yma yn rhoi gogwydd hollol wahanol i unrhyw beth yr ydym wedi bod yn ei wneud yn barod, a'r tebygrwydd yw nad yw'r math o weithgaredd sydd wedi mynd a ni drwy'r gostyngiad ariannol a welwyd yn y gorffennol am ein tywys drwy'r stormydd eithriadol sydd o'n blaenau. Bydd y sefyllfa newydd yn gofyn am newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn meddwl am bethau.

1.6 Wrth baratoi'r adroddiad yma gofynnwyd i mi gyfarch nifer o faterion ac rwyf wedi strwythuro'r adroddiad ar sail y gofynion hynny.

**2 Beth yw'r bwriad o ran delio gyda'r angen i adolygu ymrwymiadau'r Cynllun Asedau a'r Cynllun Strategol a pha ran fydd gan drwch aelodau'r Cyngor yn y gwaith o adolygu hynny ?**

2.1 Yn gyntaf oll, gan mai strategaethau'r Cyngor yw'r ddau yma bydd yn rhaid i'r Cyngor ei hun gytuno i ni ail ymweld â hwynt.

2.2 Wedyn fe fydd yn rhaid i'r Cabinet ystyried pa gynlluniau y byddwn yn argymell i'r Cyngor y dylid ystyried eu hepgor er mwyn lleihau pwysau ar y Cyngor.

2.3 Yn y pen draw fodd bynnag mater i'r Cyngor fydd unrhyw benderfyniad i newid y Cynllun Strategol a beth i'w newid yn dilyn argymhellion gan y Cabinet.

**3 Sut fyddwn ni'n pwyso a mesur yr ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol a'r Cynllun Rheoli Asedau yn erbyn gofynion gwasanaethau craidd ?**

3.1 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn adlewyrchiad o anghenion cyfalaf y gwasanaethau craidd. Pan sefydlwyd ef yn yr Hydref 2009 fe nodwyd gan y gwasanaethau hynny beth oedd eu hanghenion ac fe flaenoriaethodd y Cyngor y cynlluniau yn ôl yr adnoddau oedd ar gael.

3.2 Bydd angen ail ymweld â hynny gan fod yr adnodd sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Asedau yn rhoi pwysau aruthrol ar y gyllideb refeniw (sydd yn gorfod ariannu'r £23m y bu i'r Cyngor benderfynu benthyca er mwyn atgyfnerthu'r Cynllun Asedau).

3.3 Fe all y Cyngor benderfynu wrth gwrs fod y cynlluniau sydd yn cael eu cyfarch gan y £23m hwnnw fod werth yr arbedion fydd yn rhaid eu gwneud i'w ariannu - mater o bwyso a mesur blaenoriaethau cymharol ydyw.

3.4 Mae'r Cynllun Strategol yn manylu'r cynlluniau hynny fyddai'n dda eu cael er mwyn gwella bywydau bobl Gwynedd. Mae yna rai lle byddai'n wirion peidio â'u cyflawni gan eu bod yn arwain at arbedion ac felly yn caniatáu i ni warchod mwy o wasanaethau.

3.5 Mae yna rai eraill lle byddai aelodau yn dymuno gweld y cynlluniau yn cael eu cyflawni doed a ddel oherwydd y budd sylweddol sydd am ddod i bobl Gwynedd o'u cyflawni.

3.6 Mae yna gynlluniau eraill lle bydd y budd sydd am ddeillio i bobl Gwynedd yn llai o flaenoriaeth na rhai gwasanaethau craidd efallai a lle byddai'n gwneud mwy o synnwyr i aros i weld beth fydd yn gorfod cael ei ddileu o gyllideb y Cyngor cyn meddwl am eu cyflawni. Dyma yw'r cynlluniau efallai lle dylid eu gosod ar un ochr am nawr hyd nes y byddwn yn gwybod beth fyddai'r pris o'u cyflawni.

**4 Pa mor hyderus yw'r cabinet am allu'r Cyngor i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cytuno cyn dechrau mynd i'r afael a'r her newydd hon ?**

4.1 ‘Rwyf yn cwrdd bob deufis gyda’r swyddogion priodol i gael fy niweddaru ar berfformiad adrannau’r Cyngor wrth gyflawni’r arbedion yr ydym wedi gofyn iddynt eu cyflawni.

4.2 Dengys yr adroddiad diweddaraf rhwng 2010/11 a 2013/14 ein bod wedi gorfod adnabod cynlluniau arbedion gwerth bron i £19.4m. Ym mis Gorffennaf ‘roedd yna 15 cynllun gwerth tua £1m lle nad oeddent wedi llwyr gyflawni hyd yma.

4.3 Problemau gyda’r amser yr oedd yn ei gymryd i gyflawni oedd y rhan fwyaf o’r problemau y tu ôl i’r cynlluniau yma, ac nid oes yna bryder na fydd y rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni’r arbedion a adnabuwyd ymhen amser.

4.4 Mae record y Cyngor yn hyn o beth felly yn glodwiw yn fy marn i (yn enwedig am ei fod ar ben dros £11m o arbedion a gyflawnwyd rhwng 2007/8 a 2010/11) a does yna ddim i awgrymu fod ymdrechion yr adrannau am fod yn llai effeithiol yn y dyfodol.

4.5 Wedi dweud hynny, rhaid cydnabod fod y dasg am fynd yn anoddach bob blwyddyn wrth i faint yr arbedion gynyddu.

4.6 Bydd yn rhaid cael trefniadau clir a diamwys ar gyfer darganfod gweddill y bwlch ariannol a ddaw i’n rhan ac ‘rwyf wedi gofyn i swyddogion amlygu’r opsiynau sy’n agored i ni yn hyn o beth.

4.7 Tydi peidio â mynd i’r afael a’r her ddim yn opsiwn gan fod yna ddyletswydd gyfreithiol arnom i sicrhau cyllideb gytbwys ond gellir bod yn eithaf hyderus o’r uchod fod y Cyngor yma am fod mewn gwell lle i ymateb na ambell i sefydliad arall.

**5 Beth yw effaith cyflawni’r arbedion cyfredol ar drigolion Gwynedd a sut ydych chi’n mesur hyn ?**

5.1 ‘Rydym yn amcangyfrif fod y Cyngor wedi arbed dros £30m ers 2007/8 gyda thua 88% o’r swm yma yn arbedion effeithlonrwydd.

5.2 Yn ddamcaniaethol, gan fod arbedion effeithlonrwydd yn parhau i sicrhau’r un canlyniadau i bobl Gwynedd am gost is ni ddylai'r rhain fod wedi effeithio ar bobl Gwynedd. Fodd bynnag, mewn ymdrech i sicrhau mai dyna yw’r achos, mae yna waith yn mynd ymlaen gan swyddogion i edrych ar fesurau perfformiad sydd wedi dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf i weld a oedd unrhyw un o’r meysydd yma yn faes lle cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd.

5.3 Wrth gwrs , os nad ydym yn medru cael arbedion drwy fod yn fwy effeithlon, yr unig ateb arall yw torri gwasanaethau neu gyfleusterau a byddai hynny yn sicr o arwain at effaith ar bobl Gwynedd.

6 **O gofio fod y Strategaeth Arbedion cyfredol yn rhagweld y posibilrwydd o doriadau, beth ydach chi'n rhagweld ar hyn o bryd fel effaith posibl yr arbedion pellach y bydd angen i'r Cyngor eu cyfarfod yn wyneb yr her newydd y mae'n ei wynebu ?**

6.1 Fel y nodais yn fy llythyr ym mis Gorffennaf, ni wyddom eto beth fydd union effaith negeseuon a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac ofer fyddai ceisio dyfalu hynny ar hyn o bryd.

6.2 Fodd bynnag 'rwyf yn trafod gyda'r Cyfarwyddwr Strategol ar hyn o bryd a fydd yn rhaid i ni gymryd camau brys i newid yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2014/15.

6.3 Mae o ar hyn o bryd yn ystyried a ellir cael cynllun fydd yn caniatáu i ni barhau i weithredu ar sail y cynlluniau arbed yr ydym wedi cynllunio ar eu cyfer eisoes gan ddylunio cynllun arbedion diwygiedig fydd yn cwrdd â'r diffyg pellach yn ddiweddarach.

6.4 Byddai hyn yn caniatau i ni gymryd camau rhesymegol gyda chyfle i ymgynghori ymysg trwch yr aelodau cyn cymryd y camau ychwanegol angenrheidiol.

6.5 Byddwn wedi datblygu hyn ymhellach yn ystod yr wythnosau nesaf.

6.6 Fodd bynnag mae yna hafaliad eithaf syml yma. 'Roedd ein tafluniad gwreiddiol ym mis Chwefror yn awgrymu y dylid cynllunio ar gyfer diffyg cyllidol o tua £16m uwchben y cynlluniau hynny oedd eisoes ar y gweill (oedd gwerth tua £8.7m). Rhagwelwyd y byddem yn dod o hyd i'r arbedion pellach yma fel a ganlyn -

- Effeithlonrwydd pellach £6.4m
- Rheoli galw £5m
- Toriadau £4.7m

Gan fod y swm y byddwn ei angen yn sicr o fod yn sylweddol mwy na'r tafluniad gwreiddiol, os na fyddwn yn gallu darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd neu leihau galw yna'r unig ateb arall yw bod y toriadau am fod yn uwch.

7 **Pa gyfran o'r arbedion sydd eu hangen sy'n debygol o gael eu gwireddu drwy'r gyfundrefn rheoli galw y mae'r Cynllun Strategol yn cyfeirio ato ?**

7.1 Fel y nodir uchod - £5m oedd y targed gwreiddiol. Gan nad ydym eto wedi dod i gasgliad ar y cynlluniau unigol y byddwn yn eu cyflawni dan y pennawd yma, ni wyddom a yw hwn yn gyraeddadwy neu a oes mwy ar gael.

7.2 Gan mai yn 2015/16 yr oeddem yn rhagweld angen y swm yma a chan fod cynlluniau o'r fath yn debygol o gymryd amser i'w cyflawni,

mae'n bosibl na fyddwn yn cael goleuni am yr union swm am gryn amser.

8 **O gofio pwysigrwydd cronfeydd allanol fel y Gronfa Datblygu Wledig a Chronfa Cydgyfeiriant i sir fel Gwynedd, beth ydych chi'n feddwl fydd yr her ariannol newydd yn ei olygu i allu'r Cyngor i fanteisio ar gronfeydd o'r fath ?**

8.1 Os byddai manteisio ar gronfeydd o'r fath yn dod a budd i bobl Gwynedd, byddai angen pwyso a mesur y budd hwnnw yn erbyn unrhyw arbedion y byddai'n rhaid ei wneud i'w ariannu ac effaith yr arbedion hynny ar bobl Gwynedd.

8.2 Dyma yw blaenoriaethu wrth gwrs a tydi'r ffaith fod yr arian fydd gan y Cyngor yn debygol o fod gryn dipyn yn llai ddim am atal y Cyngor rhag parhau i gymryd penderfyniadau ar sail blaenoriaeth gymharol fel hyn.

9 **Pa drefniadau fydd gan y Cyngor yn ei le i baratoi pobl a chymunedau Gwynedd ar gyfer yr her ariannol sylweddol sydd yn ein hwynebu dros y blynyddoedd nesaf.**

9.1 Tydan ni ddim am fedru dygymod gyda'r sefyllfa sydd o'n blaenau heb i bobl Gwynedd ddod gyda ni ac fe fydd angen sicrhau cynllun cyfathrebu priodol ar gyfer yr holl raglen.

9.2 Mae'r sefyllfa ariannol sydd o'n blaenau yn dra gwahanol i'r hyn a welwyd yn y gorffennol a bydd yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cyfleu i bobl Gwynedd nad parhad o ddirywiad graddol ein sefyllfa ariannol yw hyn ond ei fod yn hytrach yn sefyllfa dra wahanol sy'n gofyn am atebion radical.

9.3 Fel rhan o'r gwaith o lunio rhaglen i ddarganfod y bwlch ychwanegol a ddaw i'n rhan byddaf hefyd yn trafod gyda swyddogion gynllun cyfathrebu fydd yn amlygu beth sydd angen ei wneud i gyfleu'r negeseuon priodol i bobl Gwynedd a sut ydan ni am gael barn bobl Gwynedd ynglŷn â'u blaenoriaethau hwy o ran meysydd gwariant y dyfodol.

Blaenraglen Craffu 2013-14

| A | Corfforaethol | B | Cymunedau | C | Gwasanaethau |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Y Cyngor a'r Cyhoedd – Ymgysylltu | B1 | Trefniadau Monitro a Gorfodaeth Meysydd Carafanau | C1 | Ateb Pryderon Gofalwyr |
| A2 | Strategaeth Arbedion + effaith codi treth y Cyngor | B2 | Rheoli Carafanau sy'n parcio ar diroedd y Cyngor heb ganiatâd | C2 | Iechyd Meddwl (cyfeirio i'r Ymchwiliad) |
| A3 | Cynllun Gwella? | B3 | Denu a Chadw Busnesau yn y Sir | C3 | Panel Strategol Diogelu Plant a Phobl Ifanc – adroddiad cynnydd ar 'adroddiad Sir Benfro' |
| A4 | Partneriaethau a Chydweithio – Asesu Cynnydd | B4 | Gwella Stoc Tai Un Llofft | C4 | Effaith sefyllfa Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar ansawdd gwasanaeth (Ymchwiliad) |
| A5 | Gwynedd Amdani – prynu trydan, nwy ac ati ar ran Cymunedau i gael gwell pris | B5 | Effaith Polisïau cynllunio ar hyfywedd Cymunedau | C5 | Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (gwybodaeth am y camau) |
| A6 | Trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio | B6 | Hafan Pwllheli – lleihad – trosglwyddo'n ôl i preifat? | C6 | Adborth gan yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn dilyn Arolwg ESTYN |
| A7 | Dangosydd Salwch | B7 | Grymuso Cymunedau | C7 | Adroddiad gan y Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion – costau, arbedion a gwersi a ddysgwyd |
| A8 | Pobl wedi Ymddeol yn dod yn ôl fel Ymgynghorwyr | B8 | Ffioedd Parcio | C8 | Anabledd ac Awtistiaeth |
| A9 | Gweithlu – Cadw Morál y | B9 | Defnydd o Lwybrau Beicio a | C9 | Plant mewn Gofal |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | Llwybrau Cerdded | | |
| A10 | Cydweithio gydag Ynys Môn | B10 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn | C10 | Darpariaeth gwasanaethau'n Lleol (Ymchwiliad) |
| A11 | Cynllun ôl-troed Carbon | B11 | Parthau Cadwraeth Morol | C11 | Llwybr i Gyflogaeth |
| A12 | Cynllun Strategol 2013-17 | B12 | Cynllun Prentisiaeth | C12 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd |
| | | B13 | Twristaeth – effaith ar yr economi | C13 | Cyfleoedd Gwaith i Bobl Ifanc diwaith |
| | | B14 | Cludiant | C14 | Panel Rhiant Corfforaethol |
| | | B15 | Trosedd ac Anrhefn | C15 | Adroddiad yr Arolygaeth ar Arweinyddiaeth – adroddiad cynnydd |
| | | B16 | Antur Aelhaearn | C16 | Prosiect Adolygiad 'End to End' Plant |
| | | B17 | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | C17 | Gwaith Ataliol – Gofal Oedolion a Phobl Hŷn |
| | | B18 | Digartrefedd – Hostel Noddfa | C18 | Gwaith 'End to End' Oedolion |
| | | | | C19 | Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus |
| | | | | C20 | Monitro GwE |

30 Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD | YMCH 6 |
| Grŵp AELODAU ARWEINIOL<br>o'r Pwyllgor Craffu | Cynghorwyr:<br><br>1 Gwynfor Edwards<br>2 Trevor Edwards<br>3 Aled Evans<br>4 Eryl Jones-Williams<br>5 Dafydd Meurig<br>6 Mair Rowlands |
| SWYDDOG ARWEINIOL | Janet Roberts<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cefnogi a Chyflawni Newid |
| CEFNOGAETH a GWEINYDDIAETH | Ann E Roberts<br>Swyddog Gwella Perfformiad a Chraffu |

1 <u>Cefndir</u>

Nod y Polisi Caffael Cynaliadwy yw cyflawni gweithgareddau caffael mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy ac uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir.

Yn benodol, mae'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn anelu at:

1. sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyflenwyr priodol i geisio am gytundebau'r Cyngor;
2. leihau effaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith;
3. sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn cael eu seilio, lle'n briodol, ar gostau gydol oes.

2 <u>Pwrpas yr Ymchwiliad</u>

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu i berfformiad caffael cynaliadwy'r Cyngor ar gontractau rhwng £50k a £500,000 fydd edrych ar y materion canlynol:

- addasrwydd y Polisi Caffael Cynaliadwy a'r trefniadau presennol
- cydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hynny
- edrych ar yr effaith, o ran pecynnu gwaith, ar gytundebau o dan £50k
- adnabod ymarfer dda o ran polisi yn y maes caffael cynaliadwy yn fewnol yn y Cyngor a thu allan i'r Cyngor
- cynnig argymhellion ar sut i wella perfformiad y Cyngor yn y maes hwn.

Draft

3 Sut

- Casglu sylwadau y swyddogion hynny yn yr Adrannau sydd yn paratoi cytundebau rhwng £50k a £500k, ar y Polisi Caffael Cynaliadwy a'r trefniadau presennol
- Rhoi asesiad clir o gydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hynny
- Rhoi ystyriaeth briodol i rwystrau a adnabuwyd a sut i'w datrys
- Nodi cryfderau, llwyddiannau a gwersi i'w dysgu
- Nodi ymarfer da yn fewnol ac allanol, a chyfleoedd i wella
- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'r Aelod Cabinet eu hystyried

4 Cyfnod yr Ymchwiliad

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Diwedd Ebrill 2013 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Rhagfyr 2013 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 16 Ionawr 2014 |
| Adroddiad oddi wrth Craffu at y Weithrediaeth | Ionawr 2014 |

5 Rhaglen

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad gan Nicola Day, Rheolwr Caffael Corfforaethol ar y Polisi Caffael Cynaliadwy |
| 2 | Edrych dros restr o'r holl gytundebau newydd rhwng £50k a £500k yn ystod y flwyddyn 2012-13 i adnabod yr adrannau sydd yn datblygu'r cytundebau hyn, y symiau, y meysydd a chydymffurfiaeth. |
| 3 | Sesiwn Cynllunio<br>• Y Grŵp Ymchwiliad i fynd drwy'r Polisi i weld pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio<br>• Cytuno ar gwestiynau ac amserlen ymweliadau â swyddogion perthnasol yn y Cyngor. |
| 4 | Sesiynau cwestiynu a thrafod gyda swyddogion perthnasol y |

Draft

| | |
|---|---|
| | Cyngor |
| 5 | Casglu a chrynhoi'r sylwadau |
| 6 | Adnabod ymarfer da yn fewnol ac yn allanol |
| 7 | Ystyried addasrwydd y Polisi a'r Canllawiau ac adnabod ymarfer da |
| 8 | Grwpiau Ffocws diwedd mis Medi/dechrau mis Hydref |
| 9 | Sesiwn Cynllunio<br>• Ystyried yr wybodaeth a gasglwyd a chynllunio gweddill y rhaglen |
| 10 | Sesiwn cwestiynu a thrafod y prif ganfyddiadau gyda'r<br>• Aelod Cabinet<br>• Rheolwr Caffael Corfforaethol<br>• Pennaeth Strategol a Gwella |
| 11 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad |
| 12 | Llunio'r adroddiad |
| 13 | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion i'r Aelod Cabinet |

Draft